
# Gweithlen

| Ffocws iaith | | |
|---|---|---|
| | Geiriau sy'n dweud pryd:<br>Llynedd<br>Eleni<br>Y flwyddyn nesaf | • **Llynedd, roedd** Eisteddfod yr Urdd ym Mhen-y-Bont ar Ogwr. |
| | Amser y ferf:<br>Roedd<br>... sy<br>bydd | • **Eleni**, Brycheiniog a Maesyfed sy'n croesawu Eisteddfod yr Urdd. |
| | Treiglad Trwynol<br>(e.e. b > m) yn + enw lle<br>ym Mae Caerdydd | • **Y flwyddyn nesaf**, bydd yr Eisteddfod ym Mae Caerdydd! |




**Dyma'r Rhestr Testunau**

Dyma'r llyfryn sy'n dweud beth ydy'r cystadlaethau.

Ar dudalen 104 mae'r cystadlaethau rhyddiaith (prose) ar gyfer dysgwyr.


CYSTADLEUAETH 404:
Rhyddiaith Blwyddyn 10 ac 11 '**TECHNOLEG**'.

Mae copi ar wefan urdd.cymru

Mae TECHNOLEG yn datblygu (develop) yn gyflym iawn.

Yn y gyfrol o gerddi **Rhywun yn Rhywle,** mae'r bardd, Tudur Dylan Jones, wedi ysgrifennu cerdd o'r enw **Ar y Wê**.

Yn y pennill cyntaf, mae'r bardd yn dweud bod ei rieni (dad a mam) ac efallai nain a taid, mamgu a tadcu yn defnyddio llyfrau i chwilio am wybodaeth.




**£4.99**
www.gomer.co.uk


Yn pennill 4 o'r gerdd **Ar y Wê**, mae'r bardd yn dweud pa mor lwcus ydy e. Mae'r datblygiad mewn technoleg yn golygu bod popeth **ar flaen ei fysedd**.

at his finger tips

Ond pob gwybodaeth sydd gen i,
Mae nawr ar flaen fy mysedd,
A gallaf fynd mewn dim drwy lyfr
O'i ddechrau draw i'w ddiwedd.

at my finger tips



OND yn pennill 1 mae e'n sôn am yr amser pan roedd ei rieni'n ifanc. Llyfrau oedd yr unig beth oedd ganddyn nhw.

Flynyddoedd maith a mwy yn ôl
pan oedd rhieni'n fychan,
roedd ganddynt lyfrau i'w helpu nhw
llyfrau ... a dyna'r cyfan.

Yn pennill 2 a 3 mae e'n dweud bod rhaid 'mynd draw i'r llyfrgell' ac mae e'n cyfeirio at (refer to) 'lluniau llonydd a di-liw.'

* Meddyliwch am eich atebion i'r cwestiynau canlynol.

* Cofiwch gynnig rheswm.

* Holwch eich partner.

* Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'ch partner?

Ydych chi'n cytuno gyda Tudur Dylan Jones?
Ydych chi'n meddwl eich bod chi'n lwcus achos bod popeth nawr **ar flaen eich bysedd**?

at your finger tips

Pa fath o dechnoleg fyddwch chi'n ddefnyddio?

Pa dechnoleg fyddwch chi'n ddefnyddio fwyaf? Pam?

**Technoleg**

Cyfrifiadur / Tabled
Band llydan
'Smart Board'
Camera digidol
Y wê
Argraffu (Printio)
Ffôn symudol
Llungopïo
Sganio
Snapchat
Camera fideo
Trydar
Gweplyfr
'Apps'
Instagram




IAW

**Ysgrifennwch nodiadau mewn tabl tebyg i'r isod.**
**Defnyddiwch y nodiadau i adrodd yn ôl i weddill y grŵp.**

| | Cytuno gyda'r bardd? | Pa dechnoleg? | Hoff dechnoleg. Pam? |
|---|---|---|---|
| Chi | | | |
| Eich partner | | | |

**DARLLENWCH** y darnau isod ac yna cwblhewch y tasgau sy'n dilyn.

Mae technoleg yn bwysig iawn yn **fy mywyd**. Dw i ddim yn gwybod sut roedd pobl yn byw heb ffôn symudol a chyfrifiadur neu dabled. Dw i'n siarad gyda fy ffrindiau, yn tecstio, yn mynd ar gweplyfr ac yn trydaru ar fy ffôn. Mae Instagram a Snapchat yn boblogaidd hefyd.
Mae fy iPad **yn ddefnyddiol** iawn i mi hefyd. Fel gyda fy ffôn, dw i'n gwrando ar gerddoriaeth, yn chwarae gemau, yn tynnu lluniau ...
Wrth gwrs mae'n rhaid **bod yn ofalus** achos mae technoleg yn gallu bod **yn beryglus** weithiau.

**Jayne M.**

**Yn wahanol i** Jayne dydw i ddim yn 'techie'. Mae gen i ffôn symudol fel **bron bob** person yn ei **arddegau** ac mae fy nghyfrifiadur yn ddefnyddiol i helpu gyda gwaith ysgol a mynd ar y wê. Dw i'n defnyddio fy ffôn i siarad gyda fy ffrindiau a'r teulu ac **ambell waith** dw i'n tynnu lluniau ar wyliau neu ar gyfer prosiect yn yr ysgol. Fydda i byth yn trydaru a dydw i ddim ar gweplyfr achos fel Jayne mae **fy rhieni**'n meddwl bod technoleg yn gallu bod yn beryglus, **yn enwedig** i bobl ifanc.

**Siôn W.**

Bydda i'n hoffi defnyddio technoleg yn y gwersi yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn **paratoi** gwersi ar y 'Smart Board' weithiau ac mae hyn yn grêt yn fy marn i.
Dw i'n berson sy'n **hoff iawn o** dechnoleg. Mae **band llydan** yn wych a dw i'n hoffi mynd ar y wê. Dw i wrth fy modd gyda fy nghyfrifiadur ar gyfer **prosesu geiriau**, argraffu a sganio hefyd. Baswn i'n hoffi gliniadur (laptop) newydd Microsoft ond maen nhw'n ddrud iawn. Wrth gwrs, dw i'n cytuno gyda Jayne achos baswn i ddim yn gallu byw heb fy ffôn symudol **chwaith**.

**Lowri B.**

**1. Pa air/eiriau mewn print bras yn y bocs glas, gwyrdd a pinc sy'n golygu:**

| | | |
|---|---|---|
| dangerous | nearly every | teens |
| occasionally | especially | very fond of |
| prepare | (to) be careful | useful |
| broadband | my parents | different to |
| my life | word processing | either |

2. (i) Ydych chi'n meddwl basai Jayne yn hapus heb (without) ei ffôn symudol?
(ii) Beth sy'n poeni Jayne am dechnoleg?
(iii) Ydy Siôn yn yr Ysgol Uwchradd?
(iv) Sut mae'n rhaid i ffrindiau Siôn gysylltu ag o?
(v) Pam dydy Siôn ddim yn trydaru nac yn defnyddio Gweplyfr?
(vi) Nodwch un peth sy'n wahanol rhwng Siôn a Lowri.
(vii) Pa fath o dechnoleg mae athrawon Lowri'n ddefnyddio weithiau?
(viii) Fydd Lowri'n prynu gliniadur newydd Microsoft? Pam?
(ix) Ymha ffordd mae Lowri'n cytuno gyda Jayne?
(x) I wneud pa 3 pheth mae Lowri'n defnyddio ei chyfrifiadur?

3. Mae Jayne yn dweud bod technoleg yn bwysig iawn yn ei bywyd.

Ydy technoleg yn bwysig yn eich bywyd chi?
Ydych chi'n defnyddio technoleg tebyg neu gwahanol i Jayne?

4. Fel Jayne, mae rhieni Siôn yn meddwl bod technoleg yn gallu bod yn beryglus, **yn enwedig** i bobl ifanc.

Ydych chi'n cytuno bod technoleg yn gallu bod yn beryglus i bobl ifanc?
Pam?
Rhowch 3 enghraifft.

5. Basai Lowri'n hoffi gliniadur (laptop) newydd Microsoft ond maen nhw'n ddrud iawn.

Pa fath o dechnoleg fasech chi'n hoffi ar y funud.
Ydych chi'n meddwl bydd hyn yn bosibl? Pam?



**Defnyddiwch** y gweithgareddau yn y weithlen i'ch helpu i **YSGRIFENNU** ar gyfer cystadleuaeth rhyddiaith Blwyddyn 10 ac 11 '**TECHNOLEG**' yn Eisteddfod Brycheiniog a Maesyfed 2018.

**Cofiwch**

- ddefnyddio cyfrifiadur i brosesu geiriau
- sganio lluniau
- ddefnyddio camera digidol
- argraffu'r gwaith
- wneud y gwaith yn lliwgar ac yn ddiddorol

**Gallwch ddweud:**

- os ydych chi'n 'techie' neu beidio
- pa dechnoleg rydych chi'n ddefnyddio
- pa dechnoleg newydd hoffech chi gael
- beth ydy eich hoff dechnoleg
- os ydych chi'n 'ffan' o'r cyfryngau cymdeithasol (social media) neu beidio
- ym mha ffordd rydych chi'n defnyddio'ch ffôn, cyfrifiadur etc
- os ydych chi'n meddwl bod technoleg yn gallu bod yn beryglus i bobl ifanc a sut.

Anfonwch eich gwaith at:
Y Trefnwyr, Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn, Llanuwchllyn, Y Bala LL23 7ST neu cyfansoddi@urdd.org. Mae cyfarwyddiadau ar dudalen 74 a 75 o'r Rhestr Testunau.
Y dyddiad cau yw **1 Mawrth 2018.**